

<p><b>LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU</b></p> <p><b>ADRAN YR ECONOMI A THRAFNIDIAETH</b></p> <p><b>(GWEITHREDIADAU'R DE-DDWYRAIN A SEILWAITH ADRAN YR ECONOMI A THRAFNIDIAETH)</b></p> <p><b>DRAFFT GORCHYMYN PRYNU GORFODOLGWEINIDOGION CYMRU (OCHR DDEHEUOL BASN Y RHÂTH, CAERDYDD) 200-</b></p> <p><b>GAN FOD:</b></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Y sawl sydd â'i lofnod isod, sef un o Weinidogion Cymru, yn bwriadu gwneud y Gorchymyn uchod.</li> <li>2. Bwriedir gwneud y Gorchymyn o dan bwerau a freiniwyd yng Ngweinidogion Cymru o dan adran 21A o Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru (fel y'i diwygiwyd) ac Atodlen 4 iddi a Ddeddf Caffael Tir 1981 ("Ddeddf 1981").</li> <li>3. Bydd y Gorchymyn, os caiff ei wneud:             <ol style="list-style-type: none"> <li>(i) yn awdurdodi prynu tir sy'n ffurio rhan o fan agored fel y'i diffinnir yn adran 19 o Ddeddf Caffael Tir 1981; a</li> <li>(ii) yn awdurdodi caffael hawliau dros dir sy'n ffurio rhan o fan agored fel y'i diffinnir ym mharagraff 6 o Atodlen 3 i Ddeddf Caffael Tir 1981.</li> </ol> </li> <li>4. I'r graddau y bydd y Gorchymyn, os caiff ei wneud:             <ol style="list-style-type: none"> <li>(i) yn awdurdodi prynu tir sy'n ffurio rhan o fan agored o'r fath; neu</li> <li>(ii) yn awdurdodi caffael hawliau dros dir sy'n ffurio rhan o fan agored o'r fath</li> </ol> </li> </ol>	<p><b>WELSH ASSEMBLY GOVERNMENT</b></p> <p><b>DEPARTMENT FOR THE ECONOMY AND TRANSPORT</b></p> <p><b>(DE&amp;T OPERATIONS SOUTH EAST &amp; INFRASTRUCTURE)</b></p> <p><b>THE DRAFT OF THE WELSH MINISTERS (SOUTH SIDE OF ROATH BASIN, CARDIFF) COMPULSORY PURCHASE ORDER 200-</b></p> <p><b>WHEREAS:</b></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. The undersigned, being one of the Welsh Ministers, proposes to make the above Order.</li> <li>2. The Order is proposed to be made under powers vested in the Welsh Ministers under section 21A of and Schedule 4 to the Welsh Development Agency Act 1975 (as amended) and the Acquisition of Land Act 1981 ("1981 Act")</li> <li>3. The Order if made will:             <ol style="list-style-type: none"> <li>(i) authorise the purchase compulsorily of land forming part of open space as defined in section 19 of the 1981 Act; and</li> <li>(ii) authorise the acquisition compulsorily of rights over land forming part of open space as defined in paragraph 6 of Schedule 3 to the 1981 Act.</li> </ol> </li> <li>4. In so far as the Order if made will:             <ol style="list-style-type: none"> <li>(i) authorise the purchase of land forming part of such open space; or</li> <li>(ii) authorise the acquisition of rights over land forming part of such open space</li> </ol> </li> </ol>
--	--

<p>mae gwneud y Gorchymyn arfaethedig felly yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheol Sefydlog 25 o Reolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru ( Gweithdrefn Arbennig y Cynulliad).</p>	<p>the making of the proposed Order is therefore subject to the provisions of Standing Order 25 of the Standing Orders of the National Assembly for Wales (Special Assembly Procedure).</p>
<p>YR WYF I, Y SAWL SYDD A'I LOFNOD ISOD, YN AWR YN ARDYSTIO DRWY HYN:</p>	<p>NOW I, THE UNDERSIGNED, HEREBY CERTIFY THAT:</p>
<p>Y cydymffurfiwyd â holl ofynion Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 (fel y'i diwygiwyd) a Deddf 1981 parthed:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) cyhoeddi neu gyflwyno hysbysiadau;</li> <li>(ii) ystyried gwrthwynebiadau;</li> <li>(iii) cynnal ymchwiliadau neu drafodion eraill sy'n rhagwrain gwneud y Gorchymyn.</li> </ul>	<p>All requirements of the Welsh Development Agency Act 1975 (as amended) and of the 1981 Act with respect to:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) the publication or service of notices;</li> <li>(ii) the consideration of objections;</li> <li>(iii) the holding of inquiries or other proceedings preliminary to the making of the Order;</li> </ul> <p>have been complied with.</p>
<p>5. Bydd yr hysbysiad cyhoeddus o hawl unrhyw berson i gyflwyno deiseb i'r Cynulliad yn erbyn gwneud y Gorchymyn yn cael ei gyhoeddi yn y wasg leol ac ar wefan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn</p>	<p>The public notice of the entitlement of any person to present a petition to the Assembly against its making will be published in the local press and on the Welsh Assembly Government's website at <a href="http://www.wales.gov.uk/index.htm">www.wales.gov.uk/index.htm</a></p>
<p><u><a href="http://www.cymru.gov.uk/index.htm">www.cymru.gov.uk/index.htm</a></u> (Detholer: 'Llywodraeth Cynulliad Cymru, Deddfwriaeth, Deddfwriaeth Ddrafft, Offerynnau Anstatudol Drafft, Deddf Awdurdod Datblygu Cymru') ac ar yr adeg honno, bydd copi ohono, gan gynnwys y gorchymyn drafft, ar gael yn llyfrgell y Cynulliad.</p>	<p>(Select: 'Welsh Assembly Government, Legislation, Draft Legislation, Draft Non- Statutory Instruments, Welsh Development Agency Act') at which time a copy of it, including the draft order, will be available in the Assembly library.</p>

Llofnodwyd..... Dyddiad 16/05/08 <b>Ieuan Wyn Jones AC</b>  <b>Dirprwy Brif Weinidog Cymru/ Y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, yr aelod o Lywodraeth Cynulliad Cymru gyda'r cyfrifoldeb dros y Gorchymyn drafft uchod.</b>	Signed ..... Date 16/05/08 <b>Ieuan Wyn Jones AM</b>  <b>Deputy First Minister/ Minister for the Economy and Transport, the member of the Welsh Assembly Government with responsibility for the above draft Order.</b>	
--	--	--